ATODLEN 2

GOFYNION YCHWANEGOL AR GYFER LLADD ANIFEILIAID AC EITHRIO MEWN LLADD-DAI

# RHAN 4

## Gweithrediadau ffrwyno

### Gofyniad cyffredinol

**26.** Ni chaiff neb stynio na lladd anifail heb ffrwyno'r anifail mewn modd priodol.

### Ffrwyno anifeiliaid buchol

**27.** Heb leihau cyffredinolrwydd paragraff 26, ni chaiff neb stynio anifail buchol llawn-dwf mewn iard gelanedd oni fydd yr anifail, ar yr adeg y caiff ei stynio—

(a) wedi ei gaethiwo mewn lloc stynio sydd mewn cyflwr gweithredol da; neu

(b) gyda'i ben ynghlwm yn ddiogel, mewn safle sy'n galluogi stynio'r anifail heb achosi poen, trallod na dioddefaint diangen iddo.

### Ceryntau trydanol

**28.** Ni chaiff neb ddefnyddio cyfarpar stynio neu gyfarpar lladd trydanol nac unrhyw offeryn arall sy'n defnyddio cerrynt trydanol ar anifail—

(a) fel modd i ffrwyno'r anifail;

(b) fel modd i lonyddu'r anifail; neu

(c) ac eithrio'n unol â pharagraff 20 o'r Atodlen hon, fel modd i wneud i'r anifail symud.

### Clymu coesau

**29.** Ni chaiff neb glymu coesau anifail.

### Hongian anifeiliaid

**30.**—(1) Ni chaiff neb hongian anifail cyn ei stynio neu'i ladd.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys yn achos dofednod, y caniateir eu hongian ar gyfer eu stynio neu'u lladd, ar yr amod—

(a) y cymerir camau priodol i sicrhau bod y dofednod, ar yr adeg y cânt eu stynio neu'u lladd wedi ymlacio'n ddigonol i'w stynio neu'u lladd yn effeithiol a heb oedi'n ormodol; a

(b) na chaiff dofednod eu hongian am gyfnod hwy na 3 munud yn achos tyrcwn, neu 2 funud mewn achosion eraill, cyn eu stynio neu'u lladd.

### Llinellau gefynnu

**31.**—(1) Ni chaiff neb weithredu llinell gefynnu—

(a) oni chedwir y dofednod sy'n hongian ohoni yn glir o unrhyw wrthrych a allai achosi poen, trallod neu ddioddefaint diangen iddynt, gan gynnwys pan fo'u hadenydd ar led, hyd nes cânt eu stynio;

(b) onid oes modd lleddfu unrhyw boen, trallod neu ddioddefaint diangen y mae'n ymddangos y dioddefir gan ddofednod sy'n hongian o'r gefynnau, neu dynnu dofednod o'r gefynnau; ac

(c) onid yw cyflymder gweithredu'r llinell gefynnu yn galluogi cyflawni unrhyw weithred neu weithrediad arfaethedig, ar neu mewn perthynas â'r dofednod sy'n hongian o'r llinell gefynnu, heb frysio'n ormodol a chan roi sylw priodol i les y dofednod.

(2) Ni chaiff neb, mewn cysylltiad â stynio neu ladd dofednod, ddefnyddio llinell gefynnu, peiriant neu gyfarpar arall, oni ddefnyddir y cyfryw mewn cysylltiad â stynio neu ladd dofednod o'r math, y maint a'r pwysau y dyluniwyd y llinell gefynnu, y peiriant neu'r cyfarpar arall ar eu cyfer, ac eithrio mewn argyfwng pan ddefnyddir y cyfryw i leddfu dioddefaint.

**Gweithrediadau ffrwyno**

**32.** Rhaid i weithredwr y busnes ac unrhyw berson sy'n ymwneud â stynio neu ladd anifail sicrhau bod anifail, y bwriedir ei stynio neu ei ladd drwy weithredu dull mecanyddol neu drydanol ar y pen, yn cael ei gyflwyno mewn safle sy'n galluogi lleoli a gweithredu'r cyfarpar yn hawdd, yn fanwl gywir ac am yr amser priodol.